TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

City & Guilds Foundation in Bricklaying Level 2

Yn gryno

Os hoffech fod yn osodwr brics, dyma'r cwrs mynediad i chi!

Dyma'r cwrs i chi os...

... Oes gennych ddiddordeb mewn gyrfa fel gosodwr brics

... Oes gennych ddiddordeb brwd mewn adeiladu

... Hoffech gael cyfuniad o astudiaeth ymarferol a damcaniaethol

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r cwrs hwn yn eich galluogi i ddysgu, datblygu ac ymarfer y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth a/neu ddilyniant gyrfa mewn gosod brics.

Byddwch yn astudio unedau mewn:

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Egwyddorion gwybodaeth, cyfathrebu ac adeiladu adeiladau
Cyfrannu at osod ac adeiladu strwythurau gwaith maen hyd at gwrs atal lleithder
Ymgymryd â gweithgareddau gosod blociau
Ymgymryd â gweithgareddau gosod brics
Ymgymryd â gweithgareddau walio ceudod
Iechyd, diogelwch a lles mewn adeiladu

Cewch eich asesu drwy brosiectau ymarferol a phrofion ysgrifenedig ac ar-lein. Ar ôl ei gwblhau, byddwch yn cyflawni:

Diploma Lefel 1mewn Gwaith Brics
Cymwysterau priodol cefnogol i ehangu eich set sgiliau a diwallu anghenion y diwydiant

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Er mwyn ymuno â'r cwrs, bydd angen o leiaf 4 TGAU Gradd E neu uwch arnoch, gan gynnwys Mathemateg/Llythrennedd mewn Mathemateg a Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf neu gymhwyster Lefel Mynediad priodol.

Mae'n rhaid i chi fod eisiau gweithio yn y diwydiant adeiladu. Mae'n rhaid cael ymrwymiad llawn i bresenoldeb, ynghyd â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a hunangymhelliant. Cewch eich asesu yn barhaus a disgwylir i chi barhau â'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn eich amser eich hun.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Diploma Lefel 2 mewn Gosod Brics, prentisiaeth neu gyflogaeth.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen i chi ymgymryd ag asesiad diwydiant adeiladu er mwyn penderfynu ar y cwrs mwyaf priodol